OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2000 Rhif 1147 (Cy.82)

# DATBLYGU ECONOMAIDD, CYMRU

## Gorchymyn Awdurdod Datblygu Cymru (Terfyn Ariannol) 2000

| | | |
|---|---|---|
| *Wedi'u gwneud* | - - | *6 Ebrill 2000* |
| *Yn dod i rym* | - - | *12 Ebrill 2000* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Gorchymyn canlynol drwy arfer y pŵ er a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 18(3) o Ddeddf Awdurdod Datblygu Cymru 1975(**1**), sydd bellach wedi'i freinio yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru (**2**):

### Enwi a chychwyn

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Awdurdod Datblygu Cymru (Terfyn Ariannol) 2000 a daw i rym ar 12 Ebrill 2000.

### Cynnydd yn y terfyn ariannol

**2.** At ddibenion adran 18(3) o Ddeddf Awdurdod Datblygu Cymru 1975 (cyllid yr Awdurdod) pennir y terfyn yn £2,000 miliwn.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**3**).

*D.Elis Thomas*
6 Ebrill 2000 — Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**1**) 1975 (p.70); diwygiwyd adran 18 gan adran 1 o Ddeddf Diwydiant 1979 (p. 32), gan adrannau 5(1) a 21 ac Atodlen 2 i Ddeddf Diwydiant 1980 (p. 33), a chan adran 1 o Ddeddf Awdurdod Datblygu Cymru 1997 (p. 37).
(**2**) Gweler Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672).
(**3**) 1998 (p. 38).

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Corff Cyhoeddus gweithredol a Noddir gan y Cynulliad yw Awdurdod Datblygu Cymru. Cafodd ei sefydlu gan Ddeddf Awdurdod Datblygu Cymru 1975 er mwyn hybu datblygiad economaidd a chymdeithasol Cymru, hyrwyddo effeithlonrwydd mewn busnes a chystadleurwydd rhyngwladol yng Nghymru a hybu gwelliannau yn amgylchedd Cymru.

Mae isadran 18(3) o Ddeddf 1975 yn pennu terfyn ariannol yr Awdurdod, ac yn darparu i'r terfyn hwnnw gael ei gynyddu drwy gyfrwng gorchymyn. Mae'r Gorchymyn hwn yn cynyddu'r terfyn o £1,350 miliwn i £2,000 miliwn.